# Gweithdrefn Uniondeb Academaidd

Gweithdrefn 05: 2024 Fersiwn 1.0
Daw i rym: 1 Awst 2024

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

| Dyddiad | Yn disodli | Disgrifiad o'r Newid |
|---|---|---|
| 26 Ebrill 2024 | 2019 Fersiwn 3.3 | Mân newidiadau i deitlau. Cynnwys egwyddorion arweiniol a chyfeiriad at Ddeallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol. |
| 1 Chwefror 2021 | 2019 Fersiwn 3.2 | Mân newidiadau i deitlau swyddi |
| 1 Awst 2019 | Fersiwn 2018 | Diweddariad cyffredinol. |

| Perchennog y Ddogfen | Cymeradwywyd gan | Dyddiad Cymeradwyo | Amlder Adolygu |
|---|---|---|---|
| Uned Gwella Ansawdd | Pwyllgor Rheoliadau ac Achosion Arbennig y Senedd. | 26 Ebrill 2024. | Bob tair blynedd. |

Sylwer: Mewn amgylchiadau eithriadol, ac yn amodol ar gymeradwyaeth Cadeirydd Pwyllgor Rheoliadau ac Achosion Arbennig y Senedd, gall y cyfrifoldebau a neilltuir i Ysgolion, Penaethiaid Ysgol, Swyddogion Ysgol neu Bwyllgorau Ysgol yn y rheoliadau hyn gael eu mabwysiadu gan y Coleg, Penaethiaid Coleg, Swyddogion Coleg neu Bwyllgorau Coleg yn y drefn honno, fel bo’n briodol.

# Gweithdrefn Uniondeb Academaidd

Bwriad y Weithdrefn hon yn cryfhau uniondeb academaidd, a mynd i'r afael â chamymddwyn academaidd gan wneud hynny ar y cyd ag ysgolion, staff a myfyrwyr. Yr egwyddor arweiniol sy'n sail i'r weithdrefn hon yw y dylai cynnwys (e.e., y mynegiant ysgrifenedig sylfaenol, cyfansoddiad y gwaith, dadleuon, deongliadau, casgliadau ac ati) gwaith a gyflwynir i'w asesu fod yn waith y myfyriwr ei hun. Mae'r weithdrefn hon yn nodi gweithredoedd a allai fynd yn groes i'r egwyddor hon, ac a allai, os profir eu bod wedi cael eu cyflawni, gynrychioli achos o gamymddwyn academaidd.

Dylid anfon cyfeiriadau a thystiolaeth ategol gogyfer â phob cam o'r weithdrefn hon at uniondebacademaidd@bangor.ac.uk.

## Diffiniadau

1. Mae uniondeb academaidd yn golygu bod yn onest, yn ddibynadwy, yn ddiwyd, yn deg a dangos parch, ac mae'n ymwneud â sicrhau uniondeb gwaith myfyriwr ac yn y pen draw uniondeb y cymhwyster a roddir iddynt gan Brifysgol Bangor. Mae'r Weithdrefn Uniondeb Academaidd hon yn berthnasol i faterion mewn arholiadau ac mewn gwaith cwrs (yn cynnwys gwaith ysgrifenedig, gwaith llafar, traethodau hir a thraethodau ymchwil).

2. Mae camymddwyn academaidd yn cynnwys (ymhlith pethau eraill) achosion o lên-ladrad, cydgynllwynio, twyllo, torri rheoliadau arholiadau, llunio data ffug, sefyll arholiad yn lle ymgeisydd arall neu ddefnyddio banciau neu felinau traethodau ar gyfer asesiadau.

3. Mae ymarfer academaidd gwael yn golygu gwendidau yn y ffordd y cyfeirir at waith eraill neu orddibyniaeth ar ddeunydd y cyfeirir ato gyda mewnbwn academaidd annibynnol annigonol gan y myfyriwr.

## Gwybodaeth am y weithdrefn hon

1. Mae'r weithdrefn hon yn ymwneud â honiadau o gamymddwyn academaidd mewn arholiadau a gwaith cwrs, gan gynnwys asesiadau mewn cyrsiau nad ydynt yn arwain at gymhwyster.
2. Mae'r weithdrefn hon yn ymwneud â holl fyfyrwyr cofrestredig Prifysgol Bangor, p'un a ydynt yn astudio yn y Deyrnas Unedig neu'n rhyngwladol gydag un o sefydliadau partner y Brifysgol. Nid yw'r weithdrefn hon yn berthnasol i ddarpariaeth ddilysedig y Brifysgol, fodd bynnag dylai trefniadau sefydliadau partner adlewyrchu'r Weithdrefn hon.

3. Caiff cyfrifoldebau ysgolion, staff a myfyrwyr eu rhestru yn Atodiad 1 ac Atodiad 2. Mae atal achosion o gamymddwyn academaidd bob amser yn well na chosbi, ac mae Atodiad 1 a 2 yn cynnwys canllawiau i ysgolion, staff a myfyrwyr ar sut i osgoi

camymddwyn academaidd, a sut i hyrwyddo uniondeb academaidd. Yn Atodiad 3 disgrifir sut y defnyddir Turnitin i ganfod llên-ladrad.

4. Pan wneir honiad o gamymddwyn academaidd, mae'n bwysig y bernir bod myfyriwr yn ddieuog oni cheir digon o dystiolaeth i brofi, yn ôl yr hyn sy'n debygol, bod yr honiadau'n wir.

5. Dim ond o fewn y rhaglen astudio y mae myfyriwr wedi cofrestru arni y gellir ystyried honiadau o gamymddwyn academaidd. Er enghraifft, ni ddylai honiadau a brofwyd mewn rhaglen israddedig gael eu dwyn ymlaen i raglen Meistr.

Os gwneir honiad o gamymddwyn academaidd ar ôl i'r Brifysgol ddyfarnu cymhwyster (neu ar ôl cwblhau cwrs nad oedd yn arwain at gymhwyster), rhaid cyfeirio'r honiad at yr Uned Gwella Ansawdd. Bydd aelod awdurdodedig o staff yr Uned Gwella Ansawdd yn penderfynu a ddylid cynnull Panel Ymchwilio i ystyried yr honiad.

**Enghreifftiau**

6. Dangosir enghreifftiau o gamymddwyn academaidd isod. Enghreifftiau yw'r rhain, a gall gweithredoedd eraill ddod o dan y diffiniad cyffredinol o gamymddwyn academaidd.

**A. Enghreifftiau o Gamymddwyn Academaidd mewn Gwaith Cwrs**

[i] **Llên-ladrad**: defnyddio heb gydnabyddiaeth eiriau neu syniadau rhywun arall a'u cyflwyno i'w hasesu fel pe baent yn waith personol. Mae hyn yn cynnwys copïo deunyddiau o'r rhyngrwyd, defnydd annheg o feddalwedd deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol, ailysgrifennu deunydd cyhoeddedig heb gydnabod y ffynhonnell a chyfieithu deunyddiau yn defnyddio dulliau anawdurdodedig.

[ii] **Cydgynllwynio**: gweithio gyda rhywun arall i gyflwyno rhywfaint o waith rhywun arall, neu'r cyfan o waith rhywun arall, fel gwaith personol. Cynnig gweithio gyda rhywun i'w helpu trwy ysgrifennu a/neu gynnig rhywfaint o waith rhywun arall, neu'r cyfan o waith rhywun arall. Mae hyn hefyd yn wir pan fydd gwaith un myfyriwr yn cael ei gyflwyno yn enw myfyriwr arall neu pan fydd dau neu ragor o fyfyrwyr yn cyflwyno darn o waith sydd union yr un fath neu'n debyg iawn. Pan fydd yr awdur gwreiddiol yn ymwybodol o hyn, neu os yw'r awdur gwreiddiol wedi bod yn ddiofal o ran ystyried y gallai'r gwaith gael ei gopïo, gall y ddau fyfyriwr fod ar fai.

[iii] **Llunio data ffug**: gwneud honiadau ffug ynglŷn â chynnal arbrofion, arsylwadau, cyfweliadau neu gasglu a dadansoddi data trwy ddulliau eraill.

[iv] Camliwio data, gan gynnwys dyfeisio data neu hepgor data.

[v] Cyflwyno tystiolaeth ffug o amgylchiadau arbennig i Fwrdd Arholi.

[vi] Gwneud ymchwil heb y gymeradwyaeth foesegol a/neu unrhyw ganiatâd priodol arall sydd ei angen.

[vii] Methu â chael cydsyniad gwybodus priodol (fel y diffinnir hynny yn y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, Deddf Diogelu Data 2018 a Pholisi Diogelu Data'r Brifysgol, yn ogystal â'r gweithdrefnau moeseg ymchwil) gan gyfranogwyr projectau ymchwil neu fethu â chydymffurfio â phrotocolau cytunedig ar gyfer sicrhau a chofnodi cydsyniad.

[viii] Cael dogfennau, a / neu dasgau aseiniad gan unigolion, cwmnïau neu asiantaethau a'u cyflwyno i'w hasesu fel pe baent yn waith personol, gan dalu am y gwaith fel rheol. Neu, cynnig cynhyrchu rhan o waith myfyriwr arall, neu'r cyfan ohono. Gelwir y gweithgareddau hyn yn dwyllo trwy gontract.

[ix] Hunan lên-ladrata: ailddefnyddio gwaith y cafwyd credyd amdano eisoes yn y Brifysgol neu yn rhywle arall (oni bai y rhoddwyd caniatâd penodol i wneud hyn). Yr egwyddor arweiniol yw na ddylai unrhyw ddarn o waith cwrs a asesir orgyffwrdd yn sylweddol o ran ei gynnwys ag unrhyw ddarn arall o waith a asesir.

[x] Hyrwyddo ffyrdd o dorri uniondeb academaidd trwy rannu gwybodaeth gyda myfyrwyr eraill am ffyrdd o gyflawni camymddwyn academaidd, neu drwy hwyluso camymddwyn academaidd.

**B. Enghreifftiau o gamymddwyn academaidd mewn arholiadau**

[i] Mynd â deunydd nas caniateir, megis llyfr, papurau rhydd, ffôn symudol neu ddyfais glyfar i'r ystafell arholi.

[ii] Cuddio gwybodaeth ar eu corff i fynd i mewn i'r ystafell arholi, e.e. ysgrifennu gwybodaeth ar ddwylo, breichiau ac ati.

[ii] Copïo gwaith rhywun arall yn yr ystafell arholi.

[iii] Cyfathrebu â rhywun arall yn yr ystafell arholi.

[iv] Sefyll arholiad yn lle ymgeisydd arall neu ganiatáu i rywun arall sefyll arholiad yn eich lle chi.

[v] Cyflwyno sgript arholiad fel pe bai'n waith personol pan fo’r sgript yn cynnwys deunydd a luniwyd trwy ddulliau anawdurdodedig, gan gynnwys cydgynllwynio.

[vi] Derbyn gwybodaeth gyfyngedig yn ymwneud â'r asesiad heb gymeradwyaeth goruchwyliwr yr arholiad.

[vi] Cyflwyno tystiolaeth ffug o amgylchiadau arbennig i Fwrdd Arholi.

**Amgylchiadau Arbennig**

7. Rhaid i fyfyrwyr roi gwybod i ysgolion am amgylchiadau arbennig pan maent yn digwydd, fel y gellir ymestyn dyddiadau cyflwyno gwaith cwrs neu newid y trefniadau ar gyfer arholiadau.
8. Ni ellir defnyddio amgylchiadau arbennig i gyfiawnhau camymddwyn academaidd, ond gellir eu cymryd i ystyriaeth pan bennir cosb.
9. Gall myfyrwyr gyflwyno manylion am amgylchiadau arbennig pan mae honiad wedi caei ei wneud. Dim ond manylion sy'n uniongyrchol berthnasol i'r honiad ac i’r adeg y digwyddodd y tramgwydd honedig y gall myfyrwyr eu cyflwyno. Rhaid i fyfyrwyr gyflwyno'r manylion, ynghyd â thystiolaeth ategol, cyn unrhyw gyfarfod i drafod yr honiad. Mae gan Gadeiryddion Byrddau Arholi a Phaneli Ymchwilio awdurdod i benderfynu ac asesu a yw tystiolaeth o'r fath yn ddilys, gan gymryd i ystyriaeth ffynhonnell y dystiolaeth a'r ffordd y cafodd ei chyflwyno. Bydd amgylchiadau arbennig a gyflwynir gan y myfyriwr yn cael eu cadw'n gyfrinachol, a'u rhannu'n unig fel bo'n briodol er mwyn ystyried achos y myfyriwr.

**Cyfeirio honiadau o gamymddwyn academaidd**

10. Rhaid cyfeirio honiadau o gamymddwyn academaidd, mewn arholiadau neu waith cwrs, at Gadeirydd y Bwrdd Arholi yn yr ysgol y mae'r myfyriwr yn astudio ynddi yn gyntaf. Yn achos darpariaeth sydd wedi'i breinio, gall y Cadeirydd anfon yr achos ymlaen at yr ysgol bartner. Rhaid i'r Cadeirydd gadw mewn cyswllt â'r ysgol sy'n gyfrifol am gyflwyno'r modiwl os yw'r honiad yn ymwneud â modiwl y tu allan i'r ysgol y mae'r myfyriwr yn astudio ynddi.

11. Os yw myfyriwr yn camymddwyn yn academaidd mewn arholiad, caiff y myfyriwr ei hysbysu, gorau oll os gwneir hynny o flaen tyst, y rhoddir gwybod am yr amgylchiadau hyn. Mae'n rhaid caniatáu i'r myfyriwr barhau gyda'r arholiad. Mae'n rhaid nodi manylion ac amser y digwyddiad ar y sgript arholiad. Lle bo'n bosib, mae'n rhaid i'r arolygwr gymryd a chadw tystiolaeth sy'n ymwneud â'r camymddwyn academaidd honedig.

12. Os derbynnir honiadau pellach yn ymwneud â'r un myfyriwr cyn i Gadeirydd y Bwrdd Arholi ystyried honiad, gellir trin yr honiadau (boed mewn arholiadau ac/neu waith cwrs) fel rhai cyfamserol, a gellir ymchwilio iddynt gyda'i gilydd.

13. Wrth ystyried yr honiad o gamymddwyn academaidd, rhaid i Gadeirydd y Bwrdd Arholi ddewis un o'r opsiynau canlynol:

    i. **Peidio â chymryd camau pellach**: Rhaid dewis y llwybr hwnnw os nad oes tystiolaeth ddigonol i gyfiawnhau honiad o gamymddwyn academaidd.

    ii. **Dod i'r casgliad bod y myfyriwr wedi cyflawni ymarfer academaidd gwael:** Rhaid dewis y llwybr hwn os yw gwaith cwrs y myfyrwyr yn cynnwys enghreifftiau o ymarfer academaidd gwael nad yw'n mynd mor bell â chamymddwyn academaidd. Os dewisir yr opsiwn hwn, dylid rhoi cofnod yn FyMangor (lle bo hyn yn berthnasol, neu fel arall ei gadw ar ffeil y myfyriwr) gan nodi'r drafodaeth.

    iii. **Cynnal ymchwiliad**: Rhaid dewis y llwybr hwn os yw'r camymddwyn academaidd honedig mewn gwaith i'w asesu, gan gynnwys arholiadau a gwaith cwrs:

    - Nad yw'n cyfrannu at y marc cyffredinol a ddefnyddir i benderfynu dosbarth y cymhwyster. Er enghraifft, gwaith a asesir ar Lefel 4 mewn gradd israddedig.
    - Sy'n rhoi 20 credyd neu lai mewn gwaith a asesir sy'n cyfrannu at y marc cyffredinol a ddefnyddir i benderfynu dosbarth y cymhwyster. Er enghraifft, gwaith a asesir ar Lefel 6 mewn gradd israddedig.

    Rhaid cynnal yr ymchwiliad fel y disgrifir ym Mharagraffau 15-20. Ni ddylid dilyn y llwybr hwn os yw honiad blaenorol yn erbyn y myfyriwr wedi ei gadarnhau yn dilyn ymchwiliad gan ysgol neu gan Banel Ymchwilio.

    iv. **Cyfeirio'r honiad at Banel Ymchwilio**: Rhaid dewis y llwybr hwn ym mhob un o'r sefyllfaoedd canlynol:

    - Os cadarnhawyd honiad blaenorol yn erbyn myfyriwr yn dilyn ymchwiliad gan ysgol neu gan Banel Ymchwilio
    - Os yw'r honiad yn ymwneud â chydgynllwynio ac os yw honiad blaenorol yn erbyn o leiaf un o'r myfyrwyr dan sylw wedi cael ei gadarnhau yn dilyn ymchwiliad gan ysgol neu gan Banel Ymchwilio.

- Os yw'r honiad yn ymwneud â chamymddwyn academaidd mewn gwaith sy’n rhoi mwy nag 20 credyd mewn gwaith a asesir sy'n cyfrannu at y marc cyffredinol a ddefnyddir i benderfynu dosbarth y cymhwyster.

Os caiff honiad o gamymddwyn academaidd ei gyfeirio, rhaid cynnwys manylion yr honiad penodol a wnaed yn erbyn y myfyriwr ynghyd â thystiolaeth o'r honiad, a ddylai fod wedi ei fynegeio a'i groesgyfeirio fel bo angen fel y bydd ei bwysigrwydd a'i berthnasedd yn glir i'r Panel. Gall yr Uned Gwella Ansawdd ofyn am ragor o wybodaeth cyn caniatáu i honiad gael ei gyflwyno i Banel Ymchwilio. Rhaid darparu manylion hefyd am unrhyw honiadau blaenorol, ar ddalen ar wahân, fel y gellir eu hystyried gan Banel Ymchwilio os cadarnheir honiad. Ar y ddalen a ddarperir gall Ysgolion hefyd gynnwys unrhyw wybodaeth a all fod yn berthnasol i'r Panel Ymchwilio wrth benderfynu ar gosb.

v. Pan fo'r honiad o gamymddwyn academaidd yn ymwneud â myfyriwr o Brifysgol Bangor sy'n astudio yn un o sefydliadau partner y Brifysgol, rhaid i'r honiad cychwynnol gael ei ystyried gan Bennaeth yr Ysgol (neu uwch aelod staff academaidd cyfatebol). Mae'r opsiynau sydd ar gael i Bennaeth yr Ysgol (neu aelod staff cyfatebol) fel y nodir yn adran i-iv uchod.

**Y weithdrefn ar gyfer ymchwiliad ar lefel ysgol gan Gadeirydd y Bwrdd Arholi**

14. Rhaid i Gadeirydd y Bwrdd Arholi wahodd y myfyriwr i gyflwyno ymateb ysgrifenedig i'r honiad, drwy lythyr neu e-bost. Rhaid i'r myfyriwr ymateb o fewn 10 diwrnod gwaith, lle bo hynny'n ymarferol bosibl.
15. Rhaid i Gadeirydd y Bwrdd Arholi ystyried yr holl dystiolaeth sydd ar gael, a chaiff ymgynghori ag aelodau staff academaidd. Fel rhan o'r ymchwiliad, gall Cadeirydd y Bwrdd Arholi wahodd y myfyriwr i gyfarfod. Gall y myfyriwr ddod ag aelod o'r staff academaidd, aelod staff neu swyddog o Undeb y Myfyrwyr, neu fyfyriwr arall, gydag ef neu hi. Yn y cyfarfod gellir gofyn cwestiynau i'r myfyriwr i gadarnhau mai eu gwaith hwy eu hunain yw'r gwaith dan sylw.
16. Rhaid i Gadeirydd y Bwrdd Arholi ddewis un o'r opsiynau canlynol:
    - Dod i'r casgliad nad yw'r honiad o gamymddwyn academaidd wedi ei brofi ac na ddylid cymryd dim camau pellach.
    - Dod i'r casgliad nad yw'r honiad o gamymddwyn academaidd wedi ei brofi ond bod y myfyriwr wedi cyflawni ymarfer academaidd gwael. Rhaid defnyddio cosb fel y disgrifir isod, ac yn Atodiad 4 y ddogfen hon.
    - Cyfarwyddo arholwyr i roi marc gan anwybyddu’r rhan honno o’r gwaith sydd i’w asesu y mae camymddwyn academaidd wedi effeithio arni (e.e. testun wedi'i lên-ladrata). Mae’r dewis hwn yn briodol pan fo'r camymddwyn academaidd yn effeithio ar gyfran fechan o’r testun yn unig.
    - Rhoi marc sero (0%) am yr elfen lle digwyddodd y camymddwyn academaidd. Mae’r dewis hwn yn briodol pan fo’r camymddwyn academaidd yn effeithio ar gyfran sylweddol o’r testun, a/neu lle bernir bod y camymddwyn academaidd yn fwriadol.
    - Rhoi marc sero (0%) am yr elfen lle digwyddodd y camymddwyn academaidd. Mae’r dewis hwn yn briodol (a) pan fo'r camymddwyn academaidd yn arbennig o ddifrifol neu (b) pan fo tystiolaeth o gamymddwyn academaidd sylweddol ym mhob un o’r elfennau a asesir o fewn modiwl ac y bernir bod y camymddwyn academaidd yn fwriadol.

**Ni ddylid pennu unrhyw gosb sy'n fwy na dyfarnu marc o sero (0%) am y modiwl(au) lle profwyd bod camymddwyn academaidd wedi digwydd.**

**Rhaid i Gadeirydd y Bwrdd Arholi benderfynu hefyd a ganiateir i'r myfyrwyr gyflwyno gwaith i'w ailasesu (fel y disgrifir ym mharagraffau 17-19).**

17. Os rhoddir cosb (fel y disgrifir ym mharagraff 17 ac Atodiad 4) ar fyfyrwyr yn nwy flynedd gyntaf rhaglen israddedig (neu yn nhrydedd flwyddyn rhaglen bedair blynedd), rhaid i Gadeirydd y Bwrdd Arholi ystyried a ddylid cyflwyno unrhyw argymhellion i Fwrdd Arholi'r Senedd yn ymwneud ag ailasesu yn y modiwlau yr effeithiodd y camymddwyn academaidd arnynt. Os na ddarperir unrhyw argymhellion, rhaid gweithredu'r gweithdrefnau a geir yn y Rheoliadau Rhaglenni Hyfforddedig.
18. Os rhoddir cosb (fel y disgrifir ym mharagraff 17 ac Atodiad 4) ar fyfyrwyr ym mlwyddyn olaf rhaglen israddedig, neu fyfyrwyr ar raglen ôl-radd hyfforddedig, rhaid i Gadeirydd y Bwrdd Arholi benderfynu a ganiateir i'r myfyriwr gyflwyno gwaith i'w ailasesu a pha elfennau i'w hasesu o'r modiwl y dylid eu hailgyflwyno. Rhaid i'r Cadeirydd ystyried goblygiadau posib y penderfyniad ar allu'r myfyriwr i gyflawni gofynion y cymhwyster.
19. Rhaid i Gadeirydd y Bwrdd Arholi roi gwybod i'r myfyriwr yn ysgrifenedig am y penderfyniad a'u hawl i apelio o fewn 10 diwrnod gwaith, pan fo hynny'n ymarferol bosibl.
20. Os caiff honiad o gamymddwyn academaidd ei gadarnhau, rhaid cofnodi'r penderfyniad fel nodyn cyfrinachol ar FyMangor (pan fo hynny'n berthnasol, neu fel arall ei gadw ar ffeil y myfyriwr).

**Y weithdrefn ar gyfer cynnal Panel Ymchwilio yn y Brifysgol**

21. Caiff Panel Ymchwilio ei gynnull gan yr Uned Gwella Ansawdd. Rhaid cynnull y Panel ac ni ddylid ystyried yr achos ar sail cyfathrebu electronig yn unig.
22. Bydd yr Ysgrifennydd yn hysbysu'r myfyriwr a'r Tiwtor Personol (neu aelod staff perthnasol mewn sefydliadau partner) yn ysgrifenedig o'r honiad ac o'r ffaith y bydd Panel Ymchwilio yn ystyried yr achos.
23. Bydd aelodaeth y Panel Ymchwilio yn cynnwys:
    - Tri aelod o'r staff academaidd a benodir gan y Senedd (caiff unrhyw un o'u plith fod yn Gadeirydd). Rhaid i'r aelodau fod o'r tu allan i ysgol y myfyriwr.
    - Llywydd Undeb y Myfyrwyr (neu enwebai)

24. Rhaid i Ysgrifennydd y Panel:
    i. Hysbysu aelodau'r Panel Ymchwilio o ddyddiad, lleoliad ac amser y cyfarfod, a rhoi iddynt fanylion yr honiad ac unrhyw ddatganiadau neu ddogfennau.
    ii. Hysbysu'r myfyriwr o'r dyddiad, y lleoliad a'r amser y mae'r Panel Ymchwilio'n bwriadu cyfarfod, ac o hawl y myfyriwr i gael ei gynrychioli/ei chynrychioli neu i ddod â rhywun gydag ef/hi i'r gwrandawiad, i glywed yr holl dystiolaeth, i alw a holi tystion, ac i gyflwyno tystiolaeth arall, yn cynnwys tystiolaeth o amgylchiadau lliniarol.
    iii. Hysbysu'r ysgol a gyfeiriodd yr honiad o'r dyddiad, y lleoliad a'r amser y mae'r Panel Ymchwilio'n bwriadu cyfarfod.

iv. Anfon dogfennau at aelodau'r Panel, y myfyriwr a’r cynrychiolydd o’r ysgol.

vi. Pan fo'r Panel Ymchwilio yn ymwneud â myfyriwr sy'n astudio gydag un o bartneriaid rhyngwladol y Brifysgol, rhaid gwneud trefniadau i sicrhau, pan ddymunant wneud hynny, y gall y myfyriwr ymuno â'r cyfarfod trwy ddull ar-lein / fideo-gynadledda.

25. Rhaid i fyfyriwr sy’n bwriadu dod â rhywun gydag ef/gyda hi a/neu gael ei gynrychioli/ei chynrychioli roi gwybod yn ysgrifenedig i’r Ysgrifennydd ynghylch enw'r sawl fydd yn dod gydag ef/gyda hi a/neu yn ei gynrychioli/ei chynrychioli o leiaf 3 diwrnod gwaith llawn cyn y cyfarfod. Caniateir i fyfyrwyr fod yn bresennol trwy ddulliau ar-lein / fideo gynadledda, a gallant anfon cynrychiolydd hefyd; ond dylid rhoi prawf ymlaen llaw ar gryfder y cysylltiad a dylai cyswllt llinell ffôn ddaearol fod ar gael wrth gefn.

26. Mae gan y myfyriwr hawl i ofyn am gael gohirio’r cyfarfod lle ceir amgylchiadau lliniarol. Mae angen rhybudd o 3 diwrnod gwaith llawn o leiaf. Ni ellir gohirio cyfarfod Panel heblaw bod y myfyriwr yn gallu darparu tystiolaeth ddogfennol foddhaol o amgylchiadau lliniarol sy’n ei rwystro ef/ei rhwystro hi rhag bod yn bresennol. Rhaid i'r Ysgrifennydd ymgynghori â Chadeirydd y Panel i benderfynu a yw'r amgylchiadau lliniarol a gyflwynwyd yn ddigonol i gyfiawnhau gohirio cyfarfod y Panel. Bydd Ysgrifennydd y Panel yn anfon pob gohebiaeth sy’n ymwneud â’r honiad i gyfeiriad e-bost y myfyriwr. Pan fydd (a) myfyriwr yn methu â bod yn bresennol yn y cyfarfod ar yr amser a bennwyd neu (b) heb gysylltu â'r Ysgrifennydd o leiaf 3 diwrnod gwaith llawn cyn yr amser a bennwyd ar gyfer cyfarfod y Panel neu (c) os nad oes amgylchiadau lliniarol digonol, fel rheol bydd cyfarfod y Panel yn mynd yn ei flaen yn absenoldeb y myfyriwr.

27. Dim ond gyda chaniatâd y Cadeirydd y gellir cyflwyno unrhyw dystiolaeth a ddaw i law ar ddyddiad cyfarfod y Panel, yn cynnwys manylion am amgylchiadau arbennig.

28. Swyddogaethau’r Panel Ymchwilio yw:

i. Ystyried y dystiolaeth a gyflwynwyd am yr honiad o gamymddwyn academaidd.

ii. Penderfynu a yw'r honiad wedi cael ei gadarnhau ai peidio. Fel rheol, deuir i’r penderfyniad hwnnw ar ôl pwyso a mesur yn ôl yr hyn sy’n debygol.

iii. Penderfynu, beth yw'r gosb a roddir, os profir yr honiad.

29. Mewn achosion lle cyhuddir dau neu fwy o fyfyrwyr o dramgwyddau sy’n gysylltiedig â’i gilydd, megis mewn achos o gydgynllwynio, gall y Cadeirydd benderfynu ymdrin â’r achosion gyda'i gilydd. Fodd bynnag, rhaid rhoi cyfle i bob myfyriwr ofyn am wrandawiad ar wahân i bob achos.

30. Mewn Panel Ymchwilio:

- Rhaid i'r Cadeirydd:
  - Sicrhau bod pob aelod o'r Panel, y myfyriwr ac unrhyw un arall sy'n bresennol yn y cyfarfod, yn cael eu cyflwyno.
  - Amlinellu'r weithdrefn a ddilynir gan y Panel Ymchwilio. Darllen yr honiad sydd wedi ei wneud yn erbyn y myfyriwr.
- Rhaid i fyfyrwyr gael cyfle i ddatgan a ydynt am herio'r honiad.
- Bydd cynrychiolydd o'r ysgol sy'n gyfrifol am y modiwl yn cyflwyno'r dystiolaeth sy'n cefnogi'r honiad.

- Mae'n rhaid fod gan y myfyriwr hawl i gael ei g/chynrychioli neu i ddod â rhywun gydag ef/hi, i glywed yr holl dystiolaeth ynglŷn â'r honiad(au), i alw ac i holi tystion, ac i gyflwyno tystiolaeth arall. Gall y myfyriwr gwestiynu cynrychiolydd yr ysgol. Gall y Cadeirydd wahodd cyfraniadau gan yr unigolyn sy'n dod gyda'r myfyriwr.
- Caiff aelodau'r Panel Ymchwilio ofyn cwestiynau i'r myfyriwr, i'r Ysgrifennydd ac i gynrychiolydd yr ysgol.

31. Rhaid i'r Panel Ymchwilio ystyried a yw'r honiad wedi'i brofi ai peidio. Er mwyn profi'r honiad, nid yw'n ofynnol i'r Panel brofi bod y myfyriwr wedi bwriadu cymryd rhan mewn gweithred o gamymddwyn academaidd, ond gall prawf ychwanegol o fwriad fod yn berthnasol i'r Panel wrth bennu cosb briodol.
32. Cyn penderfynu p'un a yw'r honiad wedi'i gadarnhau ai peidio, ni ddylai'r Panel Ymchwilio fel rheol gael gwybod am unrhyw dystiolaeth o honiadau blaenorol am gamymddwyn academaidd a gafodd eu cadarnhau. Fodd bynnag, rhaid hysbysu'r Panel cyn pennu'r gosb. Mewn achosion eithriadol, cyn i'r Panel roi ei ddyfarniad gellir datgelu tystiolaeth o weithredoedd blaenorol o gamymddwyn academaidd a brofwyd os yw'r dystiolaeth honno:
    i. Yn gwrthbrofi honiad gan y myfyriwr neu eu cynrychiolydd ynglŷn â chymeriad da blaenorol.
    ii. Yn berthnasol i'r honiad dan sylw (ac eithrio dim ond dangos fod tuedd i gyflawni'r gweithredoedd honedig yn natur y myfyriwr) ac nad yw ei heffaith niweidiol yn gorbwyso ei gwerth fel tystiolaeth.
33. Fel rheol bydd y cosbau fel y cânt eu diffinio yn Atodiad 4, ond gall y Panel roi cosbau eraill yn ôl ei ddisgresiwn, ac ar sail cosbau/penderfyniadau blaenorol. Gall y cosbau hynny gynnwys pennu marc sy'n anwybyddu'r rhan honno o'r gwaith a asesir y mae camymddwyn academaidd wedi effeithio arno, rhoi marc o sero (0%) am y modiwl lle bu camymddwyn academaidd, gostwng y dosbarthiad gradd o un dosbarth, a diarddel y myfyriwr o'r Brifysgol.
34. Lle bo honiad wedi'i brofi a'r Panel yn bryderus y gall hyn effeithio ar addasrwydd / ffitrwydd y myfyriwr i ymarfer ar raglen broffesiynol, gellir cyfeirio'r achos i'w ystyried dan y drefn Addasrwydd / Ffitrwydd i Ymarfer (neu'r hyn sy'n cyfateb iddi).
35. Os yw'r Panel yn rhoi cerydd ffurfiol, gall y Panel argymell bod yn rhaid i'r myfyriwr gael cyngor gan aelod priodol o'r staff academaidd, er mwyn sicrhau y caiff achos y weithred (e.e. ymarfer academaidd gwael) ei drafod gyda'r myfyriwr, ac na ellir wedyn ystyried unrhyw drosedd gyffelyb arall ganddo / ganddi yn y dyfodol fel un 'anfwriadol'.
36. Gall Cadeirydd y Panel Ymchwilio hysbysu'r myfyriwr ar lafar wedyn o benderfyniad y Panel. Rhaid i'r Ysgrifennydd hysbysu'r myfyriwr yn ysgrifenedig o benderfyniad y Panel Ymchwilio a, lle bernir bod yr honiad wedi ei brofi, o'r gosb a roddir ac o hawl y myfyriwr i apelio.
37. Lle bernir bod yr honiad wedi'i brofi, rhaid i'r Ysgrifennydd hysbysu ysgol y myfyriwr fel y gall y Bwrdd Arholi benderfynu ar ganlyniad cyffredinol y myfyriwr yng ngoleuni'r gosb a roddwyd gan y Panel Ymchwilio.

**Prosesau Arholi**

38. Os bydd ymchwiliad i achos o gamymddwyn academaidd honedig ar y gweill ar adeg cyfarfod y Bwrdd Arholi, rhaid i'r Bwrdd ohirio ystyried canlyniadau'r myfyriwr hyd nes

bydd y Cadeirydd y Bwrdd Arholi neu'r Panel Ymchwilio wedi ystyried yr achos.

Mae gan Fyrddau Arholi yr awdurdod i ddileu canlyniad a gyhoeddwyd yn flaenorol, ac i gyhoeddi rhestr lwyddo atodol, os bernir bod achos o gamymddwyn academaidd wedi ei gadarnhau ar ôl cyhoeddi'r rhestr lwyddo wreiddiol.

**Apeliadau yn erbyn penderfyniad Cadeirydd y Bwrdd Arholi**

39. Caiff apeliadau yn erbyn penderfyniad Cadeirydd y Bwrdd Arholi eu hystyried gan Banel Ymchwilio'r Brifysgol. Fel arfer rhaid cyflwyno Apeliadau'n ysgrifenedig i uniondebacademaidd@bangor.ac.uk o fewn 10 diwrnod gwaith, lle bo'n ymarferol bosibl, i'r dyddiad y caiff y myfyriwr ei hysbysu o'r penderfyniad. Caiff Panel Ymchwilio ei gynnull i drafod yr Apêl. Bydd y Panel Ymchwilio yn gwrando ar yr apêl fel unrhyw achos arall o gamymddwyn academaidd a bydd yn penderfynu a ddylid cadarnhau'r Apêl; cadarnhau penderfyniad Cadeirydd y Bwrdd Arholi; neu gadarnhau'r honiad a diwygio'r gosb a bennwyd gan Gadeirydd y Bwrdd Arholi.

**Apeliadau yn erbyn penderfyniad Panel Ymchwilio'r Brifysgol**

40. Bydd apeliadau yn erbyn penderfyniad Panel Ymchwilio yn cael eu hystyried gan y Dirprwy Is-ganghellor (Addysg a Phrofiad Myfyrwyr) neu enwebai. Fel arfer rhaid cyflwyno Apeliadau'n ysgrifenedig i uniondebacademaidd@bangor.ac.uk o fewn 10 diwrnod gwaith, lle bo'n ymarferol bosibl, i'r dyddiad y caiff y myfyriwr ei hysbysu o'r penderfyniad.

41. Ystyrir apeliadau am y rhesymau canlynol yn unig:
    - Diffygion neu afreoleidd-dra yn y modd y cynhaliwyd y drefn a ddefnyddiwyd i ystyried yr honiad o gamymddwyn academaidd a lle gallai'r diffygion, yr afreoleidd-dra neu'r cyngor fod wedi effeithio ar y penderfyniad.
    - Amgylchiadau arbennig sy'n gysylltiedig â'r penderfyniad. Rhaid i'r apelydd egluro pam na wnaed y cyfryw amgylchiadau arbennig yn hysbys i'r pwyllgor tra oedd wrthi'n ystyried yr honiad. Lle gallai myfyriwr fod wedi rhoi gwybod am amgylchiadau arbennig, ond na wnaeth hynny, ni all wedyn roi'r rhesymau hyn fel sail dros apelio.

42. Bydd y Dirprwy Is-ganghellor yn ymchwilio i'r pryderon er mwyn casglu gwybodaeth berthnasol a llawn cyn gwneud dyfarniad ynghylch yr apêl.

43. Gall y Dirprwy Is-ganghellor ddod i un o'r casgliadau canlynol:
    i. Penderfynu peidio â chadarnhau'r apêl.
    ii. Penderfynu bod rhaid newid y penderfyniad gwreiddiol.
    iii. Penderfynu bod rhaid cyfeirio'r apêl at Banel Ymchwilio a fydd yn cynnwys aelodau na fuont yn ymwneud â'r achos o'r blaen.

44. Fel rheol, ni chaniateir apeliadau yn erbyn penderfyniad Panel Ymchwilio a gynullwyd dan baragraff 43iii.

45. Pan fo'r drefn apelio wedi'i chwblhau, gall myfyriwr gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol. Gall myfyriwr gwyno i Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol os ydynt, neu os oeddynt, yn fyfyriwr a gofrestrwyd ym Mhrifysgol Bangor, neu os oeddent yn astudio am gymhwyster a roddir gan Brifysgol Bangor. Mae'r term "myfyriwr" yn cynnwys hyfforddeion, prentisiaid a rhai sy'n astudio mewn campws tramor am un o

gymwysterau Prifysgol Bangor.

Mae gan Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol dros Addysg Uwch gynllun annibynnol i adolygu cwynion gan fyfyrwyr. Mae Prifysgol Bangor yn aelod o'r cynllun hwn. Os yw myfyriwr yn anfodlon â'r canlyniad a gawsant gan Brifysgol Bangor, efallai y gallant ofyn i Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol dros Addysg Uwch adolygu eu hachos. Cânt ragor o wybodaeth ynghylch gwneud cwyn i Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol, yr hyn y gallant a'r hyn na allant edrych arno a'r hyn y gallant ei wneud i unioni pethau yma: https://www.oiahe.org.uk/students.

Fel rheol rhaid i fyfyrwyr fod wedi cwblhau'r weithdrefn hon cyn cwyno i Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol. Bydd Prifysgol Bangor yn anfon llythyr o'r enw 'Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau' ar ôl iddynt gyrraedd diwedd y prosesau hyn ac nad oes unrhyw gamau pellach y gallant eu cymryd yn fewnol. Os na chaiff y gŵyn/apêl ei chadarnhau, bydd Prifysgol Bangor yn cyflwyno Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau'n awtomatig. Hyd yn oed os caiff cwyn/apêl ei chadarnhau neu ei chadarnhau'n rhannol gall myfyriwr ofyn am Lythyr Cwblhau Gweithdrefnau gan Brifysgol Bangor os dymunant. Gallant ddod o hyd i ragor o wybodaeth am Lythyrau Cwblhau Gweithdrefnau a phryd y gallant ddisgwyl derbyn llythyr o'r fath yma: https://www.oiahe.org.uk/providers/completion-of-procedures-letters.

I ddod â chwyn gerbron Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol, rhaid i chi lenwi Ffurflen Gwyno Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol a'i chyflwyno cyn pen 12 mis wedi ddyddiad penderfyniad terfynol Prifysgol Bangor (dyddiad y Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau yn arferol), ac fel rheol bydd yn rhaid i chi anfon eich Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau at Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol. Gallwch lawrlwytho Ffurflen Gais y Cynllun o wefan Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol www.oiahe.org.uk

**Atodiad 1 Cyfrifoldebau Ysgolion a Staff**

1. Mae'n rhaid i Bennaeth yr Ysgol sicrhau bod trefniadau'n bodoli yn yr ysgol i hyfforddi'r holl staff sy'n marcio gwaith myfyrwyr ar faterion yn ymwneud â chamymddwyn academaidd, i hyrwyddo uniondeb academaidd ac i weld beth yw'r anghenion hyfforddi.
2. Rhaid hysbysu staff:
    a. O'r angen am ddealltwriaeth a chefnogaeth i fyfyrwyr sy'n cyflawni camymddwyn academaidd oherwydd rhesymau allanol, e.e. straen, teimlo na allant ofyn am gefnogaeth, diffyg sgiliau astudio, rheoli amser gwael, diffyg hyder i fynegi eu syniadau eu hunain, diffyg dealltwriaeth o ofynion aseiniadau, anableddau (hysbys neu anhysbys), materion iechyd neu bersonol, anawsterau iaith, ac amrywiadau diwylliannol;
    b. Bod unrhyw fesurau lliniaru yn berthnasol i'r cosbau a bennir ar ôl canfod camymddwyn academaidd ac nid i'r penderfyniad ynghylch a yw camymddwyn academaidd wedi digwydd;
    c. Am ganllawiau'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd *Contracting to Cheat in Higher Education*;
    d. Am fodolaeth y prif safleoedd ysgrifennu traethodau a thwyllo trwy gontract, neu 'fanciau / melinau traethodau', ac am yr angen i sicrhau bod unrhyw hysbysebion hysbys am safleoedd o'r fath yn cael eu tynnu i lawr ar unwaith a / neu hysbysu'r Gwasanaethau Digidol fel y gellir blocio'r ffynonellau hynny;

3. Rhaid i bob ysgol fod â Swyddog Camymddwyn Academaidd.

4. Dylai staff:

    a. Ystyried sut mae myfyrwyr yn cael eu targedu gan fanciau neu felinau traethodau, a cheisio pwysleisio'r sgiliau trosglwyddadwy a geir drwy sefyll arholiadau a gwneud aseiniadau y gellir eu defnyddio yng ngyrfa myfyrwyr yn y dyfodol.
    b. Tynnu sylw myfyrwyr at y dulliau hysbys a ddefnyddir gan fanciau neu felinau traethodau a fydd yn cynnwys datganiadau cydymdeimladol ffug, naid-sgyrsiau cyfeillgar, tystebau ffug, enwau nifer o gwmnïau sy'n rhoi'r argraff o farchnad rydd, gwarantau a gwobrwyon deniadol i ddenu cwsmeriaid newydd ac i ddenu cwsmeriaid blaenorol yn ôl.
    c. Annog myfyrwyr i beidio â defnyddio gwasanaethau prawfddarllen, cyfieithu yn defnyddio dulliau nad ydynt wedi eu hawdurdodi, a gwasanaethau allanol eraill, a allai arwain at waith wedi'i olygu'n drwm neu ei ailysgrifennu gan rai heblaw'r myfyriwr;
    d. Annog myfyrwyr i roi gwybod i diwtoriaid neu staff eraill y brifysgol am gwmnïau o'r fath sy'n ceisio eu denu.

Dylai staff, mewn sefyllfa gyfrinachol un-i-un, gyfeirio myfyrwyr at y Ganolfan Sgiliau Astudio a all helpu myfyrwyr i wella eu sgiliau cymryd nodiadau, sgiliau arholiad a chyflwyno, sgiliau cynllunio a rheoli amser, sgiliau mathemateg ac ystadegau, defnyddio tystiolaeth a chyfeirio, dod o hyd i ffynonellau perthnasol, strwythur ac arddull traethodau/adroddiadau, datblygu dadl, darllen ac ysgrifennu beirniadol, sgiliau hunan-olygu, a defnyddio sylwadau a meini prawf asesu.

Dylai staff fod yn ymwybodol bod y Llyfrgell yn cynnig modiwlau, gweithdai, ac

apwyntiadau i grwpiau bychain neu unigolion, i roi cymorth gyda defnyddio adnoddau priodol, canllawiau ar dechnegau chwilio, strategaethau ar gyfer cyflawni ymchwil o ansawdd da, cyngor ar lên-ladrad a chyfeirio, defnyddio offer cyfeirio fel Mendeley, cefnogaeth gydag adolygiadau systematig, hawlfraint, a chael cyhoeddi eich gwaith. Mae diddordeb a phresenoldeb ar ei uchaf pan gynhelir sesiynau ar y cyd â thiwtoriaid.

5. Mae staff sy'n marcio gwaith myfyrwyr yn gyfrifol am adnabod llên-ladrad a chamymddwyn academaidd, a gallant ddefnyddio pa bynnag ddulliau a ystyrir yn briodol ac unrhyw ddulliau gweithredu penodol a gaiff eu mabwysiadu gan yr ysgol (gweler yn arbennig Atodiad 3 ynghylch Turnitin) i godi ymwybyddiaeth ynghylch camymddwyn academaidd ac uniondeb academaidd.
6. Rhaid i holl lawlyfrau myfyrwyr gynnwys datganiadau ynglŷn â chamymddwyn academaidd. Rhaid i lawlyfrau gynnwys manylion hefyd am y gefnogaeth a gynigir gan ysgolion a'r Brifysgol i fyfyrwyr sydd ag amheuon ynghylch camymddwyn academaidd, neu sydd angen cymorth gyda thechnegau ysgrifennu.
7. Ar ddechrau pob modiwl rhaid rhoi cyfarwyddiadau ar ddisgwyliadau'n ymwneud ag unrhyw weithgaredd academaidd lle mae angen i fyfyrwyr gydweithio. Rhaid rhoi gwybodaeth glir i fyfyrwyr ynghylch i ba raddau y mae cydweithio'n ofynnol neu'n cael ei wahardd.
8. Ni ddylid cymryd yn ganiataol bod myfyrwyr wrth gyrraedd y Brifysgol eisoes yn gwybod beth yw confensiynau academaidd, beth yw camymddwyn academaidd, a sut y gallant ei osgoi. Rhaid i gyfarwyddiadau ar ddefnyddio ffynonellau gwreiddiol ac eilaidd, dulliau llyfryddiaethol, cyfeirio ac osgoi hunan lên-ladrad gael eu cyflwyno i'r holl fyfyrwyr mewn iaith glir a diamwys. Rhaid i'r cyfarwyddiadau gynnwys cymaint â phosibl o enghreifftiau wedi eu tynnu o'r pwnc a astudir. Ystyrir bod rhoi cyfleoedd i fyfyrwyr weld p'un a ydynt yn cyflawni llên-ladrad ai peidio yn ymarfer da; er enghraifft, drwy ganiatáu i fyfyrwyr gyflwyno fersiynau drafft o waith i Turnitin.
9. Yn achos myfyrwyr sy’n dysgu o bell, a myfyrwyr sydd wedi cofrestru gyda Phrifysgol Bangor ac sy'n astudio gydag un o bartneriaid y Brifysgol yn y Deyrnas Unedig neu'n rhyngwladol, rhaid i ysgolion ddarparu canllawiau clir ynghylch beth yw camymddwyn academaidd, neu sut y gallant ei osgoi. Rhaid trafod camymddwyn academaidd mewn cyrsiau preswyl, grwpiau astudio neu gyfarfodydd cefnogi eraill.
10. Rhaid ystyried semester cyntaf cyfnod astudio pob myfyriwr fel un datblygiadol, gan roi cyfleoedd i annog a datblygu dulliau gweithredu academaidd da. Rhaid ymdrin mor gydymdeimladol â phosibl ag achosion o ymarfer academaidd gwael, gan roi cefnogaeth briodol gan staff academaidd ac/neu diwtoriaid personol er mwyn sicrhau bod y myfyriwr yn deall sut y gellir osgoi digwyddiadau pellach.
11. Dylid rhoi sylw neilltuol i'r posibilrwydd o lên-ladrad wrth farcio'r aseiniadau cyntaf mewn cyrsiau ôl-radd, lle nad oes ond cyfleoedd cyfyngedig iawn ar gyfer gweithredu adferol. Yn achos myfyrwyr sydd ar gyrsiau Meistr hyfforddedig, rhaid i weithdrefnau ganiatáu i'r cyflwyniad ysgrifenedig cyntaf gael ei ddefnyddio'n ddatblygiadol, er gwaetha'r ffaith y gall y gwaith gyfrannu at yr asesiad terfynol. Gellir cyflawni hyn drwy:
    - Bennu nifer cymharol isel o farciau i'r aseiniad
    - Caniatáu ailgyflwyno'n syth lle mae myfyrwyr wedi methu â chydymffurfio ag arferion da.
12. Rhaid i ddalennau blaen gwaith a asesir gynnwys adran lle mae'r myfyrwyr yn datgan mai eu gwaith eu hunain ydyw (yn amodol ar unrhyw gyfarwyddyd penodol ar waith ar

y cyd sy'n effeithio ar ddarnau penodol o waith).

13. Rhaid i ysgolion roi cyhoeddusrwydd i'r ffaith bod gwasanaethau cefnogi ar gael i fyfyrwyr, yn cynnwys y ganolfan sgiliau astudio, a rhaid iddynt sicrhau myfyrwyr y gallant geisio cyngor gan staff academaidd a chefnogi unrhyw bryd yn ystod eu hastudiaethau.
14. Rhaid cynllunio aseiniadau i annog meddwl beirniadol a lleihau'r cyfle am gamymddwyn academaidd, yn cynnwys hunan lên-ladrad. Er enghraifft, gall aseiniadau ddisgwyl i fyfyrwyr ddatrys problemau neu ddatblygu damcaniaeth yn hytrach nag adolygu gwybodaeth. Yr un modd, bydd gofyn i fyfyrwyr ysgrifennu ar gyfer cynulleidfa wahanol neu mewn fformat gwahanol yn lleihau'r cyfle i ddim ond atgynhyrchu gwybodaeth a gyhoeddwyd.
15. Rhaid i ysgolion sicrhau y caiff myfyrwyr ganllawiau ar sut i gyfeirnodi deunydd yn gywir, yn y testun ac yn y llyfryddiaeth. Rhaid rhoi gwybodaeth iddynt ynghylch arddull/fformat cyfeirio sy'n benodol i wahanol bynciau.
16. Rhaid i ysgolion roi canllawiau i fyfyrwyr ar enghreifftiau o gamymddwyn academaidd sy'n benodol i bwnc neu ddisgyblaeth arbennig. Lle bo'n rhesymol ymarferol, rhaid i hyn roi pwyslais arbennig ar enghreifftiau heblaw'r rhai a ddisgrifir mewn canllawiau cyffredinol ar gamymddwyn academaidd sy'n berthnasol i bwnc neu ddisgyblaeth (e.e. defnydd annheg o ddeallusrwydd artiffisial cynhyrchiol; camddefnyddio meddalwedd cyfieithu).
17. Gweithredu o dan yr egwyddor arweiniol a nodir ar ddechrau'r weithdrefn hon.

## Atodiad 2 - Cyfrifoldebau Myfyrwyr

1. Rhaid i fyfyrwyr ddarllen ac ystyried yr holl ganllawiau ar gamymddwyn academaidd a ddarperir gan y Brifysgol ac ysgolion.
2. Mae cyfeirio at waith pobl eraill yn dangos darllen cefndirol ac ymchwil ac yn cryfhau unrhyw ddadleuon a gyflwynir gan fyfyrwyr yn eu gwaith eu hunain. Caiff darllen ac ymchwil o'r fath ei wobrwyo, ond ni ddylai myfyrwyr gopïo gwaith rhywun arall na defnyddio gwaith rhywun arall heb gydnabod hynny.
3. Mae aralleirio gwaith rhywun arall heb gydnabod hynny'n cael ei ystyried yn llên-ladrad. Mae hynny'n cynnwys gwneud mân newidiadau i waith rhywun arall drwy ddefnyddio rhai geiriau gwahanol neu ddileu ychydig eiriau. Rhaid cydnabod hefyd ffynonellau unrhyw ddeunyddiau sydd wedi cael eu cyfieithu o'r gwreiddiol i'r iaith y caiff yr asesiad ei gyflwyno ynddi.
4. Y ffordd orau o osgoi llên-ladrad yw dechrau aseiniadau'n fuan a sicrhau y cyfeirir at ffynhonnell pob darn o wybodaeth mewn gwaith a gynhyrchir i'w asesu (yn cynnwys ffynonellau ysgrifenedig a llafar, delweddau a thablau o ganlyniadau). Yr unig eithriad yw ffynonellau amlwg. Mae ffynhonnell yn 'amlwg' os yw'r wybodaeth yn hysbys i bawb, naill ai'n gyffredinol neu mewn maes ymchwil penodol, e.e. 'Digwyddodd y Goncwest Normanaidd yn 1066'. Mae ffynonellau gwybodaeth yn cynnwys ffynonellau cyhoeddedig, megis llyfr, cyfnodolyn, papur newydd, teledu, radio a'r rhyngrwyd. Rhaid hefyd nodi ffynhonnell gwybodaeth nad yw wedi'i chyhoeddi, er enghraifft, oddi wrth drydydd parti.
5. Lle dyfynnir gwaith/gweithiau awdur mewn sawl man, rhaid rhoi union ffynhonnell y dyfyniad bob tro y caiff ei aralleirio neu y cyfeirir ato. Os caiff syniadau amryw o awduron eu dyfynnu, eu haralleirio neu eu crynhoi nid yw'n ddigonol nodi'r ffynonellau ar ddiwedd y gwaith a asesir. Rhaid i bob syniad unigol gael ei briodoli i'r awdur(on) yn y lle(oedd) perthnasol yn y testun lle caiff ei grybwyll.
6. Ni ddylai myfyrwyr ailddefnyddio gwaith y maent eisoes wedi cael credyd amdano (oni bai y rhoddwyd caniatâd penodol iddynt wneud hynny). Gellir galw hyn yn hunan lên-ladrad.
7. Nid yw'n briodol defnyddio data pobl eraill heb eu caniatâd, oni bai fod y data hynny wedi ymddangos yn y parth cyhoeddus. Mae'n dderbyniol ail-ddadansoddi data o astudiaeth a gyhoeddwyd o'r blaen ond rhaid cydnabod ffynhonnell y data gwreiddiol. Nid yw'n dderbyniol defnyddio data o ffynonellau eraill, gan fyfyrwyr eraill (oni bai ei fod wedi'i gasglu fel rhan o waith grŵp a gymeradwywyd) neu gan aelodau staff eraill heb eu caniatâd. Hyd yn oed pan ddefnyddir data gyda chaniatâd, mae'n rhaid i ffynhonnell y data gael ei chydnabod bob amser.
8. Talu sylw manwl i ganllawiau pwnc neu ddisgyblaeth benodol a ddarperir gan eu Hysgol ynghylch camymddwyn academaidd a defnyddio meddalwedd cyfieithu mewn gwaith a gyflwynir.
9. Gweithio o dan yr egwyddor arweiniol a nodir ar ddechrau'r weithdrefn hon a chynnwys cydnabyddiaeth mewn gwaith a gyflwynir fel sy'n ofynnol yn eu pwnc neu ddisgyblaeth (e.e. i ffynonellau, dulliau, cyfieithu, defnyddio meddalwedd deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol).

**Atodiad 3 - Canfod camymddwyn academaidd a meddalwedd Turnitin**

1. Gall ysgolion ddefnyddio pa ddulliau bynnag sy'n cael eu barnu'n addas er mwyn canfod camymddwyn academaidd. Rhaid i amheuaeth o gamymddwyn academaidd gael ei gadarnhau drwy gynhyrchu tystiolaeth ddogfennol, er enghraifft, i nodi'n bendant ffynhonnell testun/deunydd sydd wedi ei lên-ladrata.
2. Mae'r Brifysgol yn argymell yn gryf y dylid defnyddio systemau electronig i ganfod llên-ladrad, sef Turnitin ar hyn o bryd. Mae'r Brifysgol yn sicrhau y ceir cydsyniad myfyrwyr i gyflwyno gwaith i system electronig sy'n canfod llên-ladrad.
3. Ni ddylid defnyddio'r adroddiadau a gynhyrchir gan feddalwedd canfod o'r fath ynddynt eu hunain i benderfynu a oes camymddwyn academaidd wedi digwydd ai peidio. Rhaid i aelodau staff academaidd sy'n gyfrifol am farcio aseiniadau ddehongli'r canlyniadau i benderfynu a ddylid edrych i mewn ymhellach i gyhuddiad o gamymddwyn academaidd. Rhaid hefyd ystyried dangosyddion eraill o gamymddwyn academaidd, fel yr amlinellir ym mharagraff 4.
4. Rhaid i staff sy'n marcio gwaith myfyrwyr ddefnyddio eu barn broffesiynol i benderfynu a oes llên-ladrad, a ffurfiau eraill ar gamymddwyn academaidd, wedi digwydd. Dyma enghreifftiau o ddangosyddion camymddwyn academaidd:
    - Mae'r gwaith, neu rannau ohono, y tu hwnt i alluoedd ymchwil neu ysgrifennu'r myfyriwr ac yn ymddangos yn rhy broffesiynol, newyddiadurol neu ysgolheigaidd.
    - Mae papur y myfyriwr yn cynnwys geirfa gymhleth neu arbenigol, termau technegol, neu eiriau ac ymadroddion eraill sydd y tu hwnt i'r hyn a ddisgwylir gan fyfyriwr ar y lefel honno.
    - Mae ansawdd yr ysgrifennu'n anghyson. Er enghraifft, efallai fod y rhagarweiniad neu'r casgliad wedi ei ysgrifennu'n wael o'i gymharu â gweddill y papur.
    - Mae'r dudalen deitl, ffont, cyfeirnodau, fformat neu ddiwyg y papur yn anghyson.
    - Mae cysylltiadau wedi eu hymgorffori, toriadau tudalen, neu rifau tudalennau anghywir yn y papur.
    - Nid yw pwnc y papur yn cyd-fynd â'r aseiniad, y darlithoedd neu'r taflenni dosbarth.
    - Mae'r llyfryddiaeth yn rhyfedd mewn rhyw ffordd. Er enghraifft, gall fod yn hir, gall arddull y llyfryddiaeth fod yn wahanol i'r un a ddefnyddir fel rheol, mae'r dyfyniadau o ffynonellau hŷn neu anghysbell, neu ychydig o'r deunyddiau yn y cyfeirnodau sydd ar gael yng nghasgliadau llyfrau, cyfnodolion neu electronig llyfrgell y Brifysgol. Mae'n bosib chwilio catalog y llyfrgell i weld a yw eitemau a restrir yn y llyfryddiaeth ar gael i fyfyrwyr.
    - Gellir defnyddio'r un dulliau chwilio a ddefnyddir gan fyfyrwyr i ganfod papurau ar y rhyngrwyd hefyd i adalw papurau a lên-ladratawyd. Gellir teipio ymadrodd o waith myfyriwr i beiriant chwilio i ganfod ffynonellau a gopïwyd.
    - Wrth ystyried gwaith myfyriwr, rhaid rhoi sylw hefyd i destun sy'n debyg, er nad yn union yr un fath o anghenraid, i ffynonellau eraill, yn cynnwys gwaith myfyriwr arall. Mae myfyrwyr yn euog o lên-ladrad os ydynt ond wedi newid ychydig eiriau a chymalau, neu wedi newid trefn brawddegau'r gwreiddiol. Mae llên-ladrad hefyd yn cynnwys cyflwyno fersiwn wedi'i hailysgrifennu o'r testun gwreiddiol heb nodi ffynhonnell ar gyfer unrhyw rai o'r syniadau neu ffeithiau.

5. Caniateir i fyfyrwyr gyflwyno gwaith i Turnitin i'w wirio am lên-ladrad cyn i'r gwaith gael ei gyflwyno i'w farcio. Dim ond oes yna reswm penodol iawn y gellir rhwystro myfyrwyr rhag gwneud hyn yn achos aseiniad neu fodiwl.

**Atodiad 4. Cosbau Arferol mewn Achosion o Gamymddwyn Academaidd a Gyfeirir at Banel Ymchwilio**

| Math o Gamymddwyn Academaidd | Cosb Is[1] | Cosbau Arferol[2] | Cosbau Uwch[3] |
|---|---|---|---|
| Camymddwyn Academaidd mewn Arholiadau neu Waith Cwrs | • Dyfarnu 0% i waith a asesir<br>• Caniateir ailsefyll/ailgyflwyno<br>• Caiff marc gwaith a asesir ei gapio ar 40% (Lefel 4-6) neu 50% (Lefel 7)<br>• Opsiwn i ganiatáu i'r myfyriwr ailgyflwyno heb y cap ond os bydd y Panel yn dewis yr opsiwn hwn rhaid iddo egluro'r penderfyniad i'r ysgol | • Dyfarnu 0% i waith a asesir<br>• Caniateir ailsefyll/ailgyflwyno dim ond os bydd angen ac os caniateir hynny o dan reolau'r Brifysgol<br>• Capio marc y modiwl ar ôl ailsefyll ar 30% (Lefel 4-6) neu 40% (Lefel 7)[4] | • Dyfarnu 0% i waith a asesir<br>• Ni chaniateir ailsefyll/ailgyflwyno ac eithrio i wneud yn iawn am fethiant fel myfyriwr rhan amser/allanol. |
| Camymddwyn Academaidd mewn Project Ymchwil Meistr (Traethawd Hir) | • Caniatáu ailgyflwyno'r thesis cyfan, ond gan ganiatáu newidiadau i adrannau/penodau penodol yn unig | • Dyfarnu 0%<br>• Caniatáu ailgyflwyno ond capio'r marc ar 50% | • Dyfarnu 0%<br>• Ni chaniateir ailgyflwyno Project Ymchwil (caniateir Tystysgrif neu Ddiploma ôl-radd) |
| Camymddwyn Academaidd mewn traethawd ymchwil ôl-radd | • Caniatáu ailgyflwyno'r traethawd ymchwil, ond gan ganiatáu newidiadau i adrannau/penodau penodol yn unig | • Arholwyr i ailystyried y traethawd ymchwil a phenderfynu a ddylid, gan anwybyddu adrannau a ddiffiniwyd, ddyfarnu'r radd i'r traethawd ymchwil (neu radd is pan fo'r opsiwn hwnnw ar gael) | • Ni chaniateir ailystyried neu ailgyflwyno'r thesis. Ni ddylid ystyried rhoi gradd is i ymgeisydd oni bai ei fod/ei bod eisoes wedi cyflawni'r meini prawf ar gyfer cymhwyster ymadael a bennwyd i'r rhaglen. |

Parhad…

1. Defnyddir y **Cosbau Is** os yw un neu ragor o'r canlynol yn berthnasol: roedd y gweithredoedd yn anfwriadol neu o ganlyniad i fethu â deall rheoliadau'r Brifysgol; gweithredwyd yn fyrbwyll a heb gynllunio hynny ymlaen llaw; mae'r camymddwyn academaidd yn gyfyngedig iawn mewn perthynas â swm y gwaith a gyflwynwyd; mae amgylchiadau personol neu amgylchiadau eraill perthnasol; ac/neu byddai'r Gosb Arferol yn cael effaith anghymesur ar broffil marciau'r myfyriwr.

2. **Defnyddir y Cosbau Arferol** os yw un neu ragor o'r canlynol yn berthnasol: mae'r myfyriwr yn deall bod yr hyn a wnaeth yn anghywir; roedd y gweithredoedd wedi eu cynllunio ymlaen llaw; mae'r camymddwyn academaidd wedi dylanwadu ar waith a gyflwynwyd, ond nid yn helaeth; ac/neu nid oes unrhyw amgylchiadau lliniarol perthnasol.

3. **Defnyddir y Cosbau Uwch** os yw un neu ragor o'r canlynol yn berthnasol: nid yw'r myfyriwr yn dangos unrhyw edifeirwch neu ofid am y gweithredoedd; mae'r gweithredoedd yn dangos llawer o gynllunio ymlaen llaw; mae'r camymddwyn academaidd yn helaeth mewn perthynas â swm y gwaith a gyflwynwyd; mae'r myfyriwr wedi cael rhybudd blaenorol gan Banel a dyma'r ail achos o gamymddwyn academaidd; nid oes unrhyw amgylchiadau lliniarol; a/neu nid yw'r Gosb Arferol yn adlewyrchu'r tramgwydd a gyflawnwyd yn ddigonol

4. **Capio'r marc ar 30% neu 40%.** Os yw modiwl yn un Craidd, rhaid capio'r marc ar 40% (Lefel 4-6) neu 50% (Lefel 7).

Sylwer: Os yw myfyriwr yn syrthio rhwng categorïau; er enghraifft, os awgrymir cosb uwch ar sail un maen prawf ond cosb arferol ar sail maen prawf arall, yna dylid gweithredu'r uchaf o'r ddwy gosb.